# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 31.07.12

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Alan Jones-Evans, Alwyn Gruffydd, Chris Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams a Tom Ellis.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd)
Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor)
Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer yr eitemau craffu:-**

<u>Eitem 7 – Adolygiad y Gwasanaeth Ieuenctid</u>

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Paul Thomas (Gwynedd Iach)
Swyddogion Cefnogol – Catrin Thomas (Uwch Reolwr Pobl a Chymunedau)
Nia Morris (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid)

<u>Eitem 8 a 9 - Strategaeth Addysg ac Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg</u>

Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Swyddog Cefnogol – Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Aelod ex-officio)

## 1. CROESO

Croesawyd y Cynghorydd Huw Edwards i'r cyfarfod yn dilyn ei anhwylder diweddar

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol fel a ganlyn pe byddir yn trafod materion yn ymwneud â'u buddiant:

(i) Y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones oherwydd ei bod yn gweithio ym maes anableddau dysgu
(ii) Ms Rhian Roberts oherwydd ei bod yn gweithio i Gyrfa Cymru

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2012 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriad isod:

**Eitem 5 (iii) – Aelodau Cyfetholedig**

**Nodi mai 3 cynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr (un bob un i gynrychioli ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd) yn hytrach na 2 fel y nodwyd.**

## 4. PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Elin Walker Jones i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar y Panel Rhiant Corfforaethol.**

## 5. RHAGLEN WAITH BLYNYDDOL

**Cyflwynwyd:** Y Fersiwn ddiweddaraf o'r Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu hwn.

**Adroddwyd:** (i) Gan y Cadeirydd bod bwriad i wahodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod gyda holl Aelodau'r Cyngor ar fore'r 13 Medi 2012 yr ymgynghoriad yn ystod Awst / Medi a Hydref ynglŷn â newid i ofal iechyd a thrafod argymhellion i'w rhoi gerbron ar brynhawn y 13eg fel rhan o raglen y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

(ii) Bod angen adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn ymhen blwyddyn oherwydd roedd teimlad bod cyfuniad o addysg a gofal fel rhan o'i orchwyl yn faich aruthrol.

**Penderfynwyd: (a) Cynnwys y rhaglen waith blynyddol fel eitem sefydlog ar Raglen y pwyllgor fel bo modd addasu'r rhaglen fel y gwêl orau.**

**(b) Ychwanegu'r meysydd canlynol i'r rhaglen:**

- **Sefyllfa Addysg Gymraeg yn ysgolion Gwynedd a gwyntyllu diffiniad o Ddwyieithog**
- **Goblygiadau pell gyrhaeddol i'r Cyngor yn deillio o'r Mesur Iechyd Meddwl newydd sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru**

**(c) Diddymu:**

- **Gair "dioddefwyr" ym mhwynt 8 ac ychwanegu "pobl â chyflwr awtistiaeth" yn ei le.**
- **Rhif 14 - Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl oddi ar y rhaglen.**

**6. ADOLYGIAD Y GWASANAETH IEUENCTID**
**Aelod Cabinet: Y Cyng. Paul Thomas**

Ystyriwyd adroddiad yr Aelod Cabinet (Gwynedd Iach) yn amlinellu cynnydd yn y Gwasanaeth Ieuenctid.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau holi'r Aelod Cabinet a'r swyddogion cefnogol a derbyniwyd yr ymatebion canlynol i'w ymholiadau:

(a) bod 7,708 wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid am y flwyddyn 2011/12 sydd yn gynnydd o 290 o'i gymharu â ffigyrau llynedd a'r rheswm am hyn ydoedd bod y Gwasanaeth yn gweithredu sustem cofnodi fwy effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd mae pobl ifanc yn dymuno. Roedd yr Aelodau yn falch bod cynnydd yn y nifer a oedd yn derbyn gwasaneth a bod gwelliant yn y drefn gofnodi.

(b) Mai 5 aelod o staff di-gymraeg sydd yn gweithio i'r Gwasanaeth ers dros 20 mlynedd a rheiny wedi eu lleoli yn Ne Meirionnydd. Nodwyd bod 3 ohonynt yn dilyn cwrs i ddysgu'r iaith yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a'r 2 arall wedi datgan dim diddordeb mewn dysgu.

(c) Nad oedd cynnydd wedi ei gyflawni o ran cynnig adeiladau megis bar coffi ar gyfer yr ieuenctid yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau a chyllid ond sicrhawyd bod gwelliant yn y ddarpariaeth a'r cynigion sydd ar gael iddynt o fewn yr adeiladau a ddefnyddir yn bresennol. Nad oedd y Gwasanaeth wedi llwyddo i ddarganfod adeiladau gwell ar gyfer pobl ifanc mewn rhai mannau. Serch hynny wedi buddsoddi mewn gwelliant i'r ddarpariaeth megis bar coffi ac adnoddau a darpariaeth gwell yn yr adeiladau sydd ar gael iddynt.

(ch) Bod tanwariant hanesyddol yn y Gwasanaeth Ieuenctid a thueddiad ydoedd i Adran Gwasanaeth Ieuenctid y Cynulliad fod yn rhyddhau grantiau oddeutu ganol mis Mawrth gyda'r angen i'w wario erbyn diwedd y mis hwnnw. Y grant hwn yn y swm o £30,000 felly sydd yn ymateb i'r tanwariant.

(d) Nad oedd yn bosibl i weithredu cynllun peilot i agor clybiau ieuenctid ar benwythnosau. Nodwyd y cyfeirir adnoddau i'r oriau tu allan i'r oriau agor clwb arferol drwy yn ymestyn y prif ganolfannau hyd at 12 wythnos ychwanegol i'r tymor arferol ac yn aml defnyddir y bws ieuenctid ar benwythnosau er mwyn medru ymestyn at y cymunedau gwasgaredig. Pwysleisiwyd mai strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ydoedd darparu cwricwlwm o ddysgu i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed mewn awyrgylch o weithgareddau ac nid i geisio cael plant oddi ar y stryd.

(dd) Bod cyllideb y Gwasanaethau Ieuenctid oddeutu £1.2m y flwyddyn ac fe dargedir cronfeydd Ewropeaidd a thu allan i'r Cyngor yn ychwanegol at hyn. Cwtogir y gyllideb yn flynyddol ac o flwyddyn nesaf bydd Cronfa Cymorth yn cael ei disodli gan Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf a olygai llai o arian yn enwedig i'r trydydd sector ar gyfer gweithgareddau ieuenctid.

(e) Bod 5 Gweithiwr Ieuenctid Ysgolion yn cefnogi pobl ifanc grŵp oedran 14 - 16 oed a'u bod yn gweithio gyda'r grwpiau mwyaf bregus sef rheiny sydd yn debygol o adael addysg heb ennill cymhwyster. Trwy gydweithio â Gweithwyr Ieuenctid cynigir cyfle i'r grwpiau hyn ennill achrediadau BTEC sydd ddim yn rhan o'r cwricwlwm traddodiadol megis sgiliau adeiladu, garddio, cyfrifiadurol, a.y.b. Nodwyd nad oedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn medru cynnig cefnogaeth ariannol na bwrsariaeth tuag at addysg bellach.

(f) Sicrhawyd bod cynlluniau arfaethedig yn barod i ymateb i unrhyw grantiau annisgwyliedig a fyddai ar gael.

(ff) Penodir staff i arwain clybiau ieuenctid ar sail cyfweliad a hyfforddiant llawn yn ystod

eu blwyddyn gyntaf. Yn y blynyddoedd diwethaf penodwyd staff ifanc brwdfrydig ac fe welwyd llwyddiant yn y clybiau hynny. Fodd bynnag, roedd dipyn o waith i'w gyflawni i sicrhau llwyddiant pob un o'r clybiau. Yn ychwanegol, gwerthusir pob clwb yn flynyddol i sicrhau ansawdd a nodwyd bod 100% o'r staff wedi cymhwyso i NVQ Lefel 3 sef y cymhwyster uchaf posibl ar gyfer arweinyddion clybiau ieuenctid.

(g) Adnabyddir ardaloedd targed drwy bolisi sef indecs amddifadedd yn ogystal â chysylltiadau gyda Phenaethiaid, yr Heddlu, Gweithwyr Cymdeithasol, er mwyn adnabod os oes problem yn codi mewn cymunedau ar fyr rybudd. Pryd hynny, sicrheir gwasanaeth y bws ieuenctid am gyfnod o 6 wythnos i asesu'r angen boed hyn i agor clwb neu barhad o wasanaeth y bws? Gall y bws gartrefu hyd at 20 unigolyn.

(h) Cydweithia'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dda gyda mudiad Ffermwyr Ieuanc a chadarnhawyd bod y gwasanaeth yn hyfforddi swyddogion y mudiad. Rhoddwyd grant o £5,000 i fudiad Ffermwyr Ieuanc Meirionnydd llynedd i ddatblygu sgiliau BTEC Lefel 1 mewn menter a busnes. Ymfalchïwyd bod 63 aelod wedi llwyddo i ennill yr achrediad ac roedd y mudiad ar y blaen o'i gymharu â mudiadau eraill Ffermwyr Ieuanc yng Nghymru.

(i) Nad oedd gan y Gwasanaeth Ieuenctid reolaeth dros Academi Hwylio, Pwllheli, ac mai Plas Heli fyddai'n rheoli'r cyfleuster newydd hwn. Fodd bynnag, sicrhawyd bod y clybiau ieuenctid yn defnyddio adnoddau ar gyfer gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn lleol.

(j) Eglurwyd mai gwobr yn ymwneud â'r amgylchedd ydoedd Gwobr John Muir a gyflwynir i bobl ifanc sydd wedi cwblhau unrhyw waith neu gynllun yn eu cymuned e.e. garddio / tacluso'r dref.

**Argymhellion:**

**Gofyn i'r Aelod Cabinet:**

**(i) drafod ymhellach gyda'r Aelod Lleol mewn perthynas â'r sylw a wnaed ynglyn â diffyg gwybodaeth i rieni ynglyn â chynllun chwaraeon yng Nghricieth**

**(ii) gyfarfod â'r Bangor Youth Group i drafod sut y gellir cynyddu gweithgareddau i bobl ifanc Bangor**

**(iii) ymchwilio i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer ieuenctid i ardaloedd eraill difreintiedig Bangor yn ychwanegol i Faesgeirchen**

**(iv) sicrhau bod mwy o gydweithio yng nghyswllt anableddau dysgu o fewn y clybiau ieuenctid**

**(v) anfon ffigyrau diweddaraf o ddefnyddwyr y Gwasanaethau Ieuenctid gan gynnwys mudiadau'r Urdd a Ffermwyr Ieuanc er gwybodaeth i'r Aelodau.**

**(vi) darparu gwybodaeth i Aelodau ar sut y gweithredir a threfnir taith y Bws Ieuenctid.**

**7. STRATEGAETH ADDYSG**
**Aelod Cabinet: Y Cyng. Siân Gwenllian**

Ystyriwyd adroddiad yr Aelod Cabinet (Addysg) - y Cynghorydd Siân Gwenllian yn amlinellu cefndir y strategaeth ad-drefnu ysgolion cynradd ynghyd â deilliannau'r cynlluniau hyd yma. Pwysleisiwyd ei bod yn gynamserol i fedru mesur effaith cynlluniau'r ad-drefnu hyd nes fo'r cynlluniau newydd yn weithredol. Fodd bynnag, roedd rhai cynlluniau'n weithredol ac eraill yn cael ei datblygu yn nalgylchoedd Dolgellau, Tywyn a Phenllyn.

O safbwynt y rhaglen waith i'w gweithredu dros y cyfnod nesaf, nodwyd bod gwaith sylweddol i'w gyflawni ac fe sylfaenir y strategaeth i sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd a chynaliadwy i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad a thynnwyd sylw'r Aelod Cabinet at y canlynol:

(a) pryder, yn deillio o ddyfodiad ysgol newydd sef Ysgol yr Hendre ei bod yn tynnu plant o Ysgol Maesincla, o gofio'r addewidion na fyddai hyn yn digwydd a pha fesurau fyddai'r awdurdod yn cymryd i rwystro hyn ddigwydd i'r dyfodol.
(b) Nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at gyd-gysylltu gyda chymunedau ac un o'r gwendidau a ddeilliwyd o'r strategaeth addysg flaenorol ydoedd diffyg cyfathrebu a gwrando ar farn trigolion cymunedau am addysg yn eu hardaloedd .
(c) Bod gwahaniaeth yng nghyllid y pen a ddyrannir i ddisgyblion Lloegr a Chymru ac nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at ystyriaethau neilltuol yng Ngwynedd am lefelau gwario uwch megis cyfanswm y boblogaeth, cymunedau bregus, economi'r ardal ynghyd â'r brif ffactor sef eu bod yn ardaloedd Cymraeg.
(d) Dylid sefydlu gwaelodlin ar ddechrau unrhyw broses ad-drefnu yn erbyn cau ysgolion hyd nes bod tystiolaeth gadarn yn profi i'r gwrthwyneb megis bod safonau addysg yn annerbyniol a bod cymunedau yn rhoi sêl bendith i'w cau
(e) Hyderir y byddir yn dysgu gwersi o'r gweithrediadau a gyflawnwyd yn y broses ad-drefnu o dan y Cyngor blaenorol i osgoi tensiynau mewn cymunedau. Nodwyd bod y broses flaenorol wedi bod yn boenus iawn i ardal Dysynni, Tywyn, ac wedi rhwygo cymunedau gyda rhieni yn datgan na fyddent yn anfon eu plant i'r ysgol newydd arfaethedig yn Llanegryn.
(f) Rhaid argyhoeddi rhieni o ba mor dda fydd adnoddau a'r ansawdd dysgu yn yr ysgolion newydd i osgoi symudiad gan ddisgyblion i ysgolion mewn ardaloedd eraill a fyddai yn ei dro yn gwneud yr ysgolion newydd yn wag
(g) A fyddir yn ystyried newid y pwyslais yn y broses ad-drefnu a hynny ar ddatblygu ysgolion gydol oes o ystyried sefyllfa fregus yn nirywiad niferoedd disgyblion yn y sector uwchradd yn ardal Meirionnydd sy'n golygu colli athrawon ac o ganlyniad yn creu anhawster i ysgolion gynnig cwricwlwm digonol ac addas i ddisgyblion
(h) Pwysigrwydd i'r awdurdod gadw rheolaeth ar y broses ad-drefnu yng Ngwynedd rhag i'r Gweinidog Addysg Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd gan roddi mesurau arbennig i leihau niferoedd o lefydd gweigion.
(i) Yn wahanol i ardaloedd eraill drwy'r sir, nodwyd bod rhagolygon yn ardal Penllyn, Y Bala, yn dangos twf yn niferoedd disgyblion ac y byddai'n rhaid sicrhau capasiti o fewn y strategaeth ad-drefnu newydd i ymdrin â hyn.
(j) Dylid cymryd i ystyriaeth barn unfrydol Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd bod angen ad-drefnu ysgolion o safbwynt amryw o resymau dilys a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
(k) Tra'n derbyn ei bod yn gynamserol i ddod i gasgliadau ynglyn â gweithrediad y cynlluniau ad-drefnu sydd eisoes wedi eu cymeradwyo gan y strategaeth flaenorol, nodwyd pwysigrwydd i symud ymlaen gyda'r broses o newid gan gofio bod llais a phrofiadau plant, cymunedau, addysgwyr yn greiddiol i'r broses ynghyd â darpariaeth addysg Gymraeg fel iaith addysgol a byw o fewn yr ysgolion a'i bod felly yn gyfle i wireddu newid go iawn.

**Argymhellion i'r Aelod Cabinet:**

**(a) Ddarparu gwybodaeth berthnasol ar sut y cyrhaeddir at gyfanswm o 900 o lefydd gweigion ar draws y Sir.**
**(b) Cymeradwyo sefydlu Gweithgor mewn egwyddor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i weithredu rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y Sir, yn ddarostyngedig ar dderbyn barn gyfreithiol gan y Swyddog Monitro.**

**(Bu i'r Cynghorwyr Alwyn Gruffydd a Llywarch Bowen Jones atal eu pleidlais mewn cysylltiad ag argymhelliad (b) uchod.**

**(c) Cyflwyno adroddiad ynglyn â sefydlu'r Gweithgor i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ac i enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu arno os yn briodol i'w sefydlu.**

**8. YMCHWILIAD CRAFFU I ANSAWDD ADDYSG**
**Aelod Cabinet: Y Cyng. Siân Gwenllian**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet (Addysg) - Y Cynghorydd Siân Gwenllian yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried os dymunent sefydlu Ymchwiliad Craffu i ansawdd addysg yng Ngwynedd.

Nododd yr Aelod Cabinet mai'r brif flaenoriaeth ydoedd creu cyfleoedd llawn i bob plentyn y Sir ac i wireddu hyn rhaid:

(a) sicrhau cysondeb yn ansawdd profiadau plant a phobl ifanc yn yr ysgolion
(b) creu cyfundrefn addysg fydd yn ffynnu i'r dyfodol
(c) rhoi sylw arbennig i blant a'u teuluoedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu'n llawn

Roedd yn amlwg bod bwlch yng nghanlyniadau ysgolion yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 ac y byddai'n fuddiol ymchwilio i'r rhesymau pam a chanfod tystiolaeth i adnabod y problemau ac i ddatrys sut i fynd i'r rafael â'r broblem.

Tynnwyd sylw'r Aelod Cabinet at y sylwadau canlynol:

(i) yr angen i ddarparu darn o waith ymchwil ar berthnasedd mesur prydau ysgol am ddim i adnabod amddifadedd gwledig
(ii) pryder bod staff ysgolion yn gorfod ymdrin â data parthed dangosyddion prydau ysgol am ddim ac o ganlyniad yn cael effaith andwyol arnynt i gyflawni'r gwaith.

**Penderfynwyd: (a) Sefydlu Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg a phenodi'r Aelodau canlynol i fod yn rhan o'r ymchwiliad:**

**(a) Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**
**(b) Y Cynghorydd Liz Saville Roberts**
**(c) Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**
**(d) Y Cynghorydd Dewi Owen**
**(e) Y Cynghorydd Siôn Wyn Jones**
**(f) Parchedig Robert Townsend**

**(b) Cymeradwyo'r pwyntiau isod fel materion i'w hymchwilio:**

**(i) pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion?**
**(ii) Safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+**

**(iii)** **Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod?**

**(iv)** **Meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr prydau ysgol am ddim a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4**

(v) **Perthnasedd mesur prydau ysgol am ddim i adnabod amddifadedd gwledig**

**(vi)** **Effaith arweinyddiaeth ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu meithrin a'u datblygu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.30 p.m.